

## Gweithio gyda gwyddoniaeth

Mae ein fframwaith ar gyfer llywodraethu gwyddoniaeth yn nodi sut rydym yn sicrhau ein bod yn glynu at ein hegwyddorion o fod yn agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

Rydym yn sicrhau'r canlynol:

- polisiâu, penderfyniadau a chynghor sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad gwyddonol gorau sydd ar gael, gan gynnwys cynghor arbenigol annibynnol
- rydym ni'n agored am y dystiolaeth a'r dadansoddiad gwyddonol sy'n sail i'n penderfyniadau, gan gynnwys unrhyw ansicrwydd, bylchau a rhagdybiaethau, a sut yr ydym wedi defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol, ac unrhyw ffactorau eraill, yn ein penderfyniadau a'n cynghor
- caiff tystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol ei lywio gan fewnbwn, craffu a herio arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill
- mae tystiolaeth a dadansoddiad ar gael i'w defnyddio ymhellach gan y gymuned wyddonol a rhanddeiliaid eraill

## Ein strategaeth ar wyddoniaeth a thystiolaeth

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar nodi a defnyddio gwyddoniaeth yn effeithiol ac mae'n hanfodol i gyflawni ein nodau uchelgeisiol o ran diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Byddwn yn defnyddio gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau heddiw yn ogystal ag i nodi a chyfrannu at fynd i'r afael â risgiau'r dyfodol.

Gwnaethom nodi pedair blaenoriaeth ymchwil. O dan bob blaenoriaeth strategol mae set o themâu ymchwil, sy'n sail i'n rhaglenni ymchwil a thystiolaeth gydlynol.

Mae ein pedair blaenoriaeth ymchwil yn ymwneud â:

1. Sicrhau diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid
2. Deall defnyddwyr a'n cymdeithas ehangach
3. Addasu i systemau bwyd a bwyd anifeiliaid y dyfodol
4. Mynd i'r afael a heriau mawr byd-eang

Mae rhagor o fanylion am bob blaenoriaeth ymchwil i'w gweld yn ein rhestr o [Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil](#).

## Prif nodweddion y strategaeth

### Yr wyddoniaeth y mae gofyn i ni ei datblygu a'i defnyddio

- deall risgiau a sut i'w gwerthuso a'u cymharu, fel y gallwn dargedu ein gwaith ar ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol

- defnyddio data, gwybodaeth a dadansoddeg yn ddeallus a rhannu'r defnydd ohonynt, i ddeall risgiau cyfredol, nodi risgiau newydd a newidiol, a datblygu trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio effeithiol wedi'u targedu
- deall defnyddwyr, busnesau bwyd, partneriaid gorfodi ac eraill yn y system fwyd a sut y gallwn weithio gyda nhw i gefnogi newid mewn ymddygiad a datblygu a lledaenu arferion da
- dysgu o beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl a gwerth am arian, drwy'n gwaith ein hunain a'n gwaith gydag eraill

## **Y ffordd rydym yn cynnal ein gwyddoniaeth**

- meithrin a chynnal y sgiliau a'r galluoedd rydym eu hangen
- sicrhau ansawdd ein gwyddoniaeth, ein tystiolaeth a'n gwybodaeth a'r defnydd ohonynt fel eu bod o fudd i ni ac o ddefnydd ac yn gyfreithlon i eraill
- defnyddio, cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth am wyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth, ar gyfer gweithredu'n agored, ymgysylltu a defnydd ac effaith effeithiol gan yr ASB ac eraill
- cyflawni amcanion uchelgeisiol ac effaith drawsbynciol drwy bartneriaethau strategol

## **Cefnogaeth ein Prif Gyngorydd Gwyddonol**

Mae ein Prif Gyngorydd Gwyddonol yn dod ag uwch oruchwyliaeth wyddonol wrth wraidd yr ASB ac yn darparu her annibynnol, wrthrychol i'r ffordd yr ydym yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth. Maent yn aelod allweddol o'n uwch grŵp arweinyddiaeth, gan weithio'n agos gyda Bwrdd yr ASB a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Yn ogystal, mae'r Prif Gyngorydd Gwyddonol yn gyswllt rhwng yr adran a gweddill y Llywodraeth fel rhan o'r Rhwydwaith Prif Gyngorydd Gwyddonol ehangach ac mae'n chwarae rhan allweddol wrth gyfleu ein gwyddoniaeth i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'r cyhoedd.

## **Cefnogaeth pwyllgorau**

Cawn ein cyngori gan bwyllgorau cyngori gwyddonol annibynnol, sy'n darparu cyngor annibynnol ar asesu risg a'n defnydd o wyddoniaeth, ac yn herio hynny. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys mwy na 120 o arbenigwyr annibynnol a benodwyd trwy gystadleuaeth agored.